# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 7fed o Ragfyr 2020 ar System Zoom am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Carys Morgan, Ruby Williams, Eiddwen Merritt a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Gerallt Davies, Garym Roberts, Wyn Jones, Jocelyn Andrew a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Tachwedd a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Parthau diogel trefi Ceredigion.
Penderfynywd ysgrifennu at y pwyllgor ymgynghoriad i sôn ein bod am grybwyll fod y cynllun yn gweithio'n dda yn Aberaeron ac yn tynnu mwy o dwristiaid i'r dref er y byddai'n beth da i harddi'r cynllun a gwneud delwedd y dref yn fwy ddeniadol.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Llythyr ynglyn a Band Eang:**
Derbyniwyd lythyr o swyddfa Ben Lake a diweddariad ynghylch cysylltiad band eang, cafwyd gadarnhad oddiwrth Open Reach y bydd 2,600 o gartrefi ar draws Ceredigion yn cael eu cysylltu i ffibr llawn yn rhan o’r cytundeb gyda Llywodraeth Cymru, er nad oedd i Open Reach gadarnhau pryd yn union y gall gweddill o’r cartrefi ddisgwyl eu cysylltu, cadarnhawyd y bydd y gwaith wedi’i gwblhau erbyn Mehefin 2023.

**Swm Priodol o dan Adran 137:**
Cafwyd wybodaeth mai £8.41 yw’r swm priodol ar gyfer 2021-22 at ddibenion adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

**Cyfrifon 2019/2020**
Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn i 31/03/20 wedi eu archwilio ac wedi ei cymeradwyo gan y pwyllgor.

**Unrhyw Fater Arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth y 12fed o Ionawr.